# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Chwefror 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5426

## 190

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 2 a 7 gan y Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog a'r Dirprwy ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Brexit)

Dechreuodd yr eitem am 14.21

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.10

**Gofyn i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth llety ar gyfer pobl sy'n gadael carchar Caerdydd yng ngoleuni'r adroddiad diweddaraf gan y Bwrdd Monitro Annibynnol?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.20

Gwnaeth **Jack Sargeant** ddatganiad am – Dymuno pob lwc i'r Nomads (ei dîm pêl-droed lleol) cyn eu gêm gynderfynol yng Nghwpan Irn Bru (yr unig dîm o Gymru yn y gystadleuaeth) a dymuniadau gorau i Gasnewydd cyn y gêm yn erbyn Manchester City.

Gwnaeth **Suzy Davies** ddatganiad am - Defibruary - ymgyrch a gaiff ei threfnu gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ym mis Chwefror bob blwyddyn i annog pobl a sefydliadau i ystyried gosod diffibriliwr, codi arian i brynu un, a rhoi cyhoeddusrwydd i'r diffibrilwyr sydd ar gael o amgylch Cymru y gall y cyhoedd eu defnyddio mewn achos brys.

## Cynigion i ethol Aelodau i Bwyllgorau (5 munud)

Dechreuodd yr eitem am 15.23

**NDM6971** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 17.3 ac 17.13(ii), yn ethol Delyth Jewell (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

**NDM6972** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Delyth Jewell (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn lle Dai Lloyd (Plaid Cymru).

**Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Datganiad gan y Llywydd: Cyflwyno Bil arfaethedig y Comisiwn - Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.23

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017-18

Dechreuodd yr eitem am 16.14

**NDM6965** Nick Ramsay (Mynwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18 - a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2018.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Ionawr 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Plaid Cymru – Grant Byw'n Annibynnol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.02

**NDM6967** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddal gafael llawn ar Grant Byw'n Annibynnol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig – Carchardai a Charcharorion

Dechreuodd yr eitem am 17.47

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6966** Gareth Bennett (Canol De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylai carchardai fod yn fannau diwygio ac adsefydlu, ac mai'r carchar yw'r gosb ar gyfer y rhai a gaiff eu dyfarnu'n euog o drosedd.

2. Yn penderfynu na ddylai carcharorion gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 1 | 34 | 48 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gŵyr)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylai carchardai fod yn lleoedd i ddiwygio ac adsefydlu.

2. Yn cefnogi'r egwyddor o hawliau pleidleisio i garcharorion yn etholiadau Cymru, ond yn disgwyl am adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 15 | 48 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM6966 Gareth Bennett (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylai carchardai fod yn lleoedd i ddiwygio ac adsefydlu.

2. Yn cefnogi'r egwyddor o hawliau pleidleisio i garcharorion yn etholiadau Cymru, ond yn disgwyl am adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 4 | 10 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## Pwynt o Drefn

Dechreuodd yr eitem am 18.35

Cododd Jane Hutt AC Bwynt o Drefn o dan Reol Sefydlog 12.37 yn nodi ei bod wedi mynegi gwrthwynebiad i NDM6967 (dadl Plaid Cymru – Grant Byw'n Annibynnol Cymru) gael ei dderbyn heb ei ddiwygio a gofynnodd i'r Llywydd egluro statws y cynnig hwnnw.

Ymatebodd y Llywydd drwy ddatgan nad oedd hi na'r Clercod wedi clywed y gwrthwynebiad a bod y cynnig heb ei ddiwygio wedi ei dderbyn eisoes fel y cytunwyd o dan Reol Sefydlog 12.36. Fodd bynnag, nododd y Llywydd y gwrthwynebiad a chadarnhaodd fod safbwynt y Llywodraeth bellach yn fater i'r cofnod.

## 9 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.36

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.39

**NDM6962** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Deddfwriaeth ansawdd aer sy'n addas ar gyfer heriau modern.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.03

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Chwefror 2019**